## Open letter to Jeremy Miles, Minister for Education and Welsh Language, regarding the reform of the school year

### Copied to Welsh Government Cabinet

Dear Minister,

We write to you to express our deep concern at the decision of the Welsh Government to engage in a public consultation over the reform of the school year, when there has been no serious attempt to engage appropriately with the sectors and organisations that represent the many people across Wales who will be detrimentally affected by the recommendations that have been presented. We believe that there is limited recent and relevant research that supports the recommendations and that they are based upon a long-held prejudice regarding the school summer break.

This proposal runs the risk of fixing a problem that does not exist, when there is also little public appetite for such a change. In the Welsh Government-commissioned Beaufort Report, the key findings state that 'the majority of participants were content with the shape of the current school year' **(attitudes-towards-school-year-reform-in-wales-research-and-engagement-findings-beaufort-research.pdf (gov.wales))**. All of the education unions are in complete agreement that the reform of the school year proposals are unacceptable. The summer break is already amongst the shortest in Europe. The educational reasons the Welsh Government give for the reforms are not substantiated by research, including the view that there is a detriment to children's learning. Countries that appear above Wales in the PISA league tables have significantly longer summer breaks. We would argue that the proposed changes will actually do damage to secondary learners, as a week is taken from the crucial autumn term and transferred to the quieter post-examination period. Every secondary teacher knows that this is a serious error. The education unions are also incredulous that, at a time when schools are facing a crisis in funding, recruitment and pupil behaviour, the Welsh Government should be so engaged in this entirely unnecessary distraction.

Representatives from the tourist industry, the second largest employer in Wales, have also expressed their dismay at the formal consultation. The proposed change to the summer break will lead to some attractions closing and jobs being lost. Many attractions take over 45% of their entire annual income in the current summer holidays. The proposal to add a week to the October half term would be a disaster for many, especially those in rural/mountainous areas where the weather at that time of year can be grim, and would mean an 80%* reduction in revenue for that week if compared to the one lost in the summer term. Last October, in half term, Wales endured a named storm and many attractions had to close on the Thursday of that week and did not reopen for the rest of the week. The tourist industry also employs many young people during the summer break period. The current six-week period allows time to train and properly engage with, youngsters, many of whom are experiencing their first opportunity in the workplace. Many will be denied this opportunity if the holiday periods are cut short by these proposals.

ASCL Cymru

FUW
UNDEB AMAETHWYR CYMRU

GMB
WALES & SOUTH WEST

CYMRU NAHT
THE SCHOOL LEADERS' UNION
UNDEB ARWEINWYR YSGOL

NASUWT CYMRU
The Teachers' Union
Undeb yr Athrawon

national education union cymru

NFU CYMRU

UCAC
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

UNISON
Cymru Wales

CAFC RWAS 1904

WELSH ASSOCIATION OF VISITOR ATTRACTIONS
WAVA
CYMDEITHAS ATYNIADAU YMWELWYR CYMRU

Farming representatives also have concerns about the proposed reform – arguing that many farming businesses that have diversified into the tourism sector benefit from a six-week peak season where the weather is far more favourable for visitors to enjoy the countryside and Wales' visitor attractions. Under the proposals, visitors will be faced with limited time in the summer to enjoy Wales at its finest. There is also concern where there are 'honey pot' areas, confining the timeframe with an increased number of visitors to these parts, will impact on those running farming businesses in rural Wales causing disruption, especially in coastal areas or National Parks. The prospect of shorter days associated with an extended October half-term break will not be as enjoyable and could result in the loss of these visitors as holidays are taken abroad.

Farmers are also concerned about the impact on the Royal Welsh Show. This is a wonderful vocational educational experience for the next generation of farmers as well as being the one opportunity a year when many farming families are able spend time together away from the farm. The Royal Welsh Agricultural Society (RWAS) has already publicly stated that schools remaining open during show week could lead to an estimated £1 million loss of revenue and thus endanger its future viability. Sixty-eight per cent of show visitors attend as part of a family group. If it is term time in Wales during Royal Welsh Show week, young people and those working in schools will be denied the opportunity to attend the show legally with their families. They will also be denied the opportunity to compete in its events, and the show will be denied its role in the education of Welsh youngsters, which is to help them develop into rounded individuals who will contribute to Wales' future prosperity. The RWAS has stated that it does not wish to negatively impact other agricultural shows and national events, such as the Eisteddfod, which follow the Royal Welsh Show in the calendar by moving its own dates. Indeed, as many of these events share the same contractors and vendors, it is unlikely that moving show dates to accommodate a change in school holidays would be viable. The show is the largest agricultural event of its kind in Europe and, as such, affords Wales the opportunity of international attention. It embodies the Welsh Government's vision of a Wales which, as outlined in the Well-being of Future Generations (Wales) Act, prospers in regards to its people, culture and economy. Endangering the show's future by having schools open during the event also endangers Wales's future prosperity.

We call upon the Welsh Government to withdraw its proposals to reform the school year. Experts in education, tourism and agriculture have all argued strongly against these proposals as the Welsh Government is not addressing these concerns. We believe that these proposals do not come from relevant and recent research and will not best support children in their learning. The arguments against these proposals that we state in this letter are just a few of many arguments that we have all repeated time and again to Welsh Government officials, but no one is listening. Possibly of greater concern are all the unintended consequences that will surface only after the damage is done. We call upon the Welsh Government to withdraw these proposals and redirect its energies to the real challenges that face Wales and to stop fighting unnecessary battles.

Yours sincerely.

* Figure from Welsh Association of Visitor Attractions

**Llythyr agored at Jeremy Miles, Gweinidog y Gymraeg a Addysg, ynghylch diwygio'r flwyddyn ysgol**

**Copïwyd i Gabinet Llywodraeth Cymru**

Annwyl Weinidog,

Ysgrifennwn atoch i fynegi ein pryder mawr ynghylch penderfyniad Llywodraeth Cymru i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar ddiwygio'r flwyddyn ysgol pan na fu unrhyw ymdrech ddifrifol i ymgysylltu'n briodol â'r sectorau a'r sefydliadau sy'n cynrychioli'r llu o bobl ar draws Cymru a fydd yn cael ei heffeithio'n andwyol gan yr argymhellion sydd wedi'u cyflwyno. Credwn mai cyfyngedig yw'r ymchwil diweddar a pherthnasol i gefnogi'r argymhellion a'u bod yn seiliedig ar hen ragfarn anwybodus ynghylch gwyliau'r haf ysgol.

Mae'r cynnig hwn mewn perygl o gyfarch  problem nad yw'n bodoli lle nad oes ychwaith fawr o awydd ymhlith y cyhoedd am newid o'r fath. Yn Adroddiad Beaufort a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, mae'r canfyddiadau allweddol yn nodi bod 'y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr yn fodlon â siâp y flwyddyn ysgol gyfredol' (t5, adroddiad-ar-ymchwil-ac-ymgysylltu-ynghylch-y-flwyddyn-ysgol-beaufort-research.pdf (llyw.cymru)). Mae pob un o'r Undebau Addysg yn cytuno'n llwyr fod y cynigion ar gyfer diwygio y flwyddyn ysgol fel ag y maent yn annerbyniol. Mae gwyliau'r haf eisoes ymhlith y byrraf yn Ewrop. Nid yw'r rhesymau addysgol y mae Llywodraeth Cymru yn eu rhoi dros y diwygiadau wedi'u cadarnhau gan ymchwil, gan gynnwys y farn bod yna anfantais i ddysgu plant. Mae gan wledydd sy'n ymddangos uwchben Cymru yn nhablau cynghrair PISA seibiannau Haf sylweddol hwy. Byddem yn dadlau y byddai'r newidiadau arfaethedig mewn gwirionedd yn gwneud niwed i ddysgwyr uwchradd wrth i wythnos gael ei chymryd o dymor hollbwysig yr Hydref a'i throsglwyddo i'r cyfnod tawelach ar ôl arholiadau. Mae pob athro uwchradd yn gwybod bod hwn yn gamgymeriad difrifol. Mae'r Undebau Addysg hefyd yn anghrediniol, ar yr adeg hon pan fo ysgolion yn wynebu argyfwng o ran cyllid, recriwtio ac ymddygiad, y dylai Llywodraeth Cymru ymwneud cymaint â'r ymyrraeth gwbl ddiangen hon.

Mae cynrychiolwyr o'r Diwydiant Twristiaeth, ail gyflogwr mwyaf Cymru, hefyd wedi mynegi eu siom ynghylch yr ymgynghoriad ffurfiol. Bydd y newid arfaethedig i wyliau'r haf yn arwain at rai atyniadau'n cau a swyddi'n cael eu colli. Mae llawer o atyniadau yn cymryd dros 45% o'u hincwm blynyddol yn ystod gwyliau'r haf presennol. Byddai'r cynnig i ychwanegu wythnos at hanner tymor mis Hydref yn drychineb i lawer, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig/mynyddig lle gall y tywydd ar yr adeg honno o'r flwyddyn fod yn ddifrifol ac yn golygu gostyngiad o 80%* mewn refeniw ar gyfer yr wythnos honno o'i gymharu â yr un a gollwyd yn Nhymor yr Haf. Fis Hydref diwethaf, yn ystod hanner tymor, dioddefodd Cymru storm a enwyd a bu'n rhaid i lawer o atyniadau gau ar ddydd Iau'r wythnos honno ac ni wnaethant ailagor am weddill yr wythnos. Mae'r diwydiant twristiaeth hefyd yn cyflogi llawer o bobl ifanc yn ystod cyfnod gwyliau'r haf. Mae'r cyfnod presennol o chwe wythnos yn caniatáu amser i hyfforddi ac ymgysylltu'n briodol â phobl ifanc y mae llawer ohonynt yn profi eu cyfleoedd cyntaf yn y gweithle. Bydd llawer yn cael eu hamddifadu o'r cyfle hwn os bydd y cynigion hyn yn cwtogi ar y cyfnodau gwyliau.

Mae gan gynrychiolwyr ffermio bryderon hefyd am y diwygiad arfaethedig gan ddadlau bod llawer o fusnesau ffermio sydd wedi arallgyfeirio i'r sector twristiaeth yn elwa o dymor brig o chwe wythnos lle mae'r tywydd yn llawer mwy ffafriol i ymwelwyr fwynhau cefn gwlad ac atyniadau ymwelwyr Cymru. O dan y cynigion, bydd ymwelwyr yn wynebu amser cyfyngedig yn yr haf i fwynhau Cymru ar ei gorau. Mae pryder hefyd lle mae ardaloedd llweyrchus, gan gyfyngu'r amserlen ar gyfer nifer cynyddol o ymwelwyr â'r rhannau hyn, yn effeithio ar y rhai sy'n rhedeg busnesau ffermio yng Nghymru wledig gan achosi aflonyddwch yn enwedig ar ardaloedd arfordirol neu barciau cenedlaethol. Ni fydd y rhagolwg o ddyddiau byrrach yn gysylltiedig â gwyliau hanner tymor estynedig mis Hydref mor bleserus, a gallai arwain yn anochel at golli'r ymwelwyr hyn wrth i wyliau gael eu cymryd dramor.

Mae ffermwyr hefyd yn bryderus am yr effaith ar y Sioe Frenhinol. Mae hwn yn brofiad addysgiadol galwedigaethol bendigedig i'r genhedlaeth nesaf o ffermwyr yn ogystal â bod yn un cyfle y flwyddyn pan fydd llawer o deuluoedd fferm yn gallu treulio amser gyda'i gilydd i ffwrdd o'r fferm. Mae Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru eisoes wedi datgan yn gyhoeddus y gallai ysgolion sy'n aros ar agor yn ystod wythnos y Sioe arwain at golled amcangyfrifedig o £1 miliwn o bunnoedd mewn refeniw a thrwy hynny beryglu ei hyfywedd yn y dyfodol. Mae 68% o ymwelwyr sioe yn mynychu fel rhan o grŵp teulu. Os yw'n amser tymor yng Nghymru yn ystod wythnos Sioe Frenhinol Cymru, ni fydd cyfle i bobl ifanc a'r rhai sy'n gweithio mewn ysgolion fynychu'r sioe yn gyfreithlon gyda'u teuluoedd. Cânt hefyd eu hamddifadu o'r cyfle i gystadlu yn ei digwyddiadau, a bydd y sioe yn cael ei hamddifadu o'i rôl yn addysg ieuenctid Cymru, sef eu helpu i ddatblygu'n unigolion cyflawn a fydd yn cyfrannu at ffyniant Cymru yn y dyfodol. Mae CAFC wedi datgan nad yw'n dymuno cael effaith negyddol ar sioeau amaethyddol a digwyddiadau cenedlaethol eraill megis yr Eisteddfod sy'n dilyn y Sioe Frenhinol yn y calendr trwy symud ei dyddiadau ei hun. Yn wir, gan fod llawer o'r digwyddiadau hyn yn rhannu'r un contractwyr a gwerthwyr, mae'n annhebygol y byddai'n ymarferol symud dyddiadau sioeau i ddarparu ar gyfer newid mewn gwyliau ysgol. Y sioe yw'r digwyddiad amaethyddol mwyaf o'i fath yn Ewrop ac felly mae'n rhoi cyfle i Gymru gael sylw rhyngwladol. Mae'n ymgorffori gweledigaeth Llywodraeth Cymru o Gymru sydd, fel yr amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yn ffynnu o ran ei phobl, ei diwylliant a'i heconomi. Mae peryglu dyfodol y sioe drwy gael ysgolion ar agor yn ystod y digwyddiad, yn peryglu ffyniant Cymru yn y dyfodol.

Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i dynnu ei chynigion i ddiwygio'r flwyddyn ysgol yn ôl. Mae arbenigwyr mewn addysg, twristiaeth ac amaethyddiaeth i gyd wedi dadlau'n gryf yn erbyn y cynigion hyn gan nad yw llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â'r pryderon hyn. Credwn nad yw'r cynigion hyn yn dod o ymchwil perthnasol a diweddar ac na fyddant yn cefnogi plant yn eu dysgu orau. Mae'r dadleuon yn erbyn y cynigion hyn yr ydym yn eu datgan yn y llythyr hwn yn rhai o blith nifer o ddadleuon yr ydym i gyd wedi'u hailadrodd dro ar ôl tro wrth swyddogion Llywodraeth Cymru ond nid oes neb yn gwrando. O bosibl yn peri mwy o bryder yw'r holl ganlyniadau anfwriadol a ddaw i'r amlwg dim ond ar ôl i'r difrod gael ei wneud. Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i dynnu'r cynigion hyn yn ôl ac ailgyfeirio ei hegni i'r heriau gwirioneddol sy'n wynebu Cymru ac i roi'r gorau i ymrafael â brwydrau diangen.

Yn gywir.

* Ffigurau gan Gymdeithas Atyniadau Ymwelwyr Cymru